# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies**



18/12/2019

## LLYTHYR DIWEDD TYMOR Y NADOLIG

Annwyl rieni/warcheidwaid,
Dyma ni ar drothwy'r Nadolig ac ar fin cyrraedd diwedd tymor prysur a llwyddiannus. Hoffwn fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi'r gweithgareddau amrywiol yn ystod y tymor ac i ddiolch i chi fel rhieni a ffrindiau'r ysgol am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus. Carwn ddiolch i'r staff am eu teyrngarwch a'u gwaith caled proffesiynol a'r disgyblion eu hunain sy'n ymroddedig i'r ysgol, i'w hastudiaethau a'r cyfleoedd maent yn derbyn wrth wneud eu gorau glas.

**Cyngherddau Nadolig**
Cawsom fis prysur ond llwyddiannus iawn o ddathliadau Nadolig. Diolch i'r holl blant a staff a weithiodd yn galed i sicrhau bod y cyngherddau a'r Gwasanaeth Carol mor dda ac i bawb a ddaeth i'r ysgol i gefnogi. Hefyd, diolch i dîm CRhA bach ond gweithgar am drefnu ffair Nadolig llwyddiannus arall. Mae'r rhieni hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i addysg eich plentyn ac yn helpu i ddatblygu'r ysgol ymhellach.

**Cyfathrebu - Lawrlwythwch ein Ap ysgol newydd i'ch ffôn symudol i gael y wybodaeth ddiweddaraf**
Rydym yn gweithio i wella'r cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref. Tymor diwethaf, buom yn brysur yn diweddaru gwefan newydd ein hysgol. Ewch i www.ysgolparcytywyn.co.uk. Er mwyn datblygu ein cysylltiadau â chi ymhellach, ac er mwyn eich diweddaru ar newyddion a digwyddiadau, fedrwch chi nawr lawrlwytho ap yr ysgol i'ch ffôn. Mae 'TheSchoolApp' yn cael ei bweru gan ein gwefan, sy'n eich galluogi i gael y wybodaeth ddiweddaraf am newyddion a digwyddiadau'r ysgol o'ch dyfais symudol. Mae 'TheSchoolApp' AM DDIM i chi ei lawrlwytho. Y cam cyntaf yw i lawrlwytho 'TheSchoolApp' ar eich ffôn - y ffordd orau o wneud hyn yw chwilio'r App Store (Apple) neu Google Play (Android) am 'TheSchoolApp'.



Rydym yn annog pob rhiant i lawrlwytho'r ap. O fis Mawrth 2020, ein nod yw i fod yn 'ddi-bapur' o ran yr ohebiaeth a ddosbarthwn i rieni. Yn lle, bydd gwybodaeth yn cael ei phostio ar ein gwefan a byddwch yn cael gwybod am ddogfennau o'r fath trwy hysbysiadau gwthio ar eich ffon. Byddwn hefyd yn defnyddio'r ap i'ch hysbysu am wybodaeth bwysig yn ogystal â negeseuon defnyddiol (e.e.. diwrnodau eira, taith ysgol yn hwyr yn ôl oherwydd traffig, nodiadau atgoffa ac ati).
Os oes gennych anhawster i gyflawni hyn, hyn dewch i'm weld yn yr ysgol er mwyn eich cynorthwyo.

**ESTYN**
Arolygwyd Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn gan Estyn ym mis Hydref 2019. Cyhoeddwyd yr adroddiad 9fed o Ragfyr 2019. Gellir gweld copïau o'r adroddiad ar wefan yr ysgol. Mae'n hyfryd rhannu'r ganmoliaeth a'r gydnabyddiaeth haeddiannol dderbyniwyd gan gymuned yr ysgol am ei llwyddiannau. Gai fanteisio ar y cyfle i longyfarch y plant, rhieni, Corff Llywodraethol ac aelodau staff yr ysgol.

**Mr Jones Blwyddyn 4**

Llongyfarchiadau i Mr Jones, a'i wraig Caryl, ar enedigaeth eu hail blentyn, Sara Megan Jones. Mae Sara Megan a mam yn gwneud yn dda iawn ac mae dad wedi blino'n lân ond yn arbenigwr ar newid cewynnau! Mae pawb yn Ysgol Parc y Tywyn wrth eu bodd â'r newyddion. Bydd Mr Jones yn dychwelyd yn ôl i'r ysgol yn y flwyddyn newydd ar ôl ei gyfnod tadolaeth.

Fodd bynnag, mi fydd Mr Jones yn ein gadael ar Ddydd Gwener 07/02/20 i gychwyn yn ei swydd newydd fel dirprwy bennaeth YGG Ffwrnes. Diolchwn yn fawr iawn iddo am ei waith clodwiw gyda ni Hoffwn ei longyfarch a dymunwn y gorau iddo yn ei swydd newydd. Mi fydd Mrs Christine Davies yn dysgu Blwyddyn 4 am weddill y flwyddyn.

**Diwrnod HMS**

Mi fydd yr ysgol yn cau am 3:20yp ar ddydd Gwener, Rhagfyr 20fed ac yn ail agor ar ddydd Mawrth, Ionawr 7fed, 2020. Cofiwch mai diwrnod hyfforddi staff yw Dydd Llun 6ed Ionawr 2020! Bydd clybiau ar ôl ysgol yn ail-gychwyn yr wythnos yn dechrau 20/01/20. Cewch amserlen o weithgareddau allgyrsiol ar ôl dychwelyd i'r ysgol.

Mae Dydd Llun 24/02/2020 hefyd wedi ei chlustnodi ar gyfer diwrnod HMS.

Yr hyn a erys nawr yw i ddymuno gwyliau diogel ac ymlaciol i bawb; gobeithio y cewch Nadolig tangnefeddus a phleserus. Gobeithiaf y daw'r Flwyddyn newydd ag iechyd a hapusrwydd i bawb ac edrychaf ymlaen at weld ein disgyblion i gyd yn dychwelyd wedi adfywio ac yn barod am dymor ysgol newydd ar ddydd Mawrth 7fed Ionawr 2020.

Yn ddiffuant,
C Davies (Pennaeth)

| Dyddiad | Dosbarth | Digwyddiad |
|---|---|---|
| 06/01/2020 | Ysgol gyfan / *Whole School* | Diwrnod **HMS / INSET** day<br>Ysgol ar gau i ddisgyblion / *School closed to pupils* |
| 07/01/20 | Ysgol gyfan / *Whole School* | Dechrau tymor y Gwanwyn i blant / *Start of Spring term for children* |
| 10/01/20 | Bl 5+6 / *Years5+ 6* | Ymweliad i'r Gerddi Botaneg / *Visit to Botanical Gardens* |
| 20/01/20 | Ysgol gyfan / *Whole School* | Clybiau all gyrsiol yn ail ddechrau / *After school clubs commence* |
| 27/01/20 | Blwyddyn 5 / Year 5 | Gwersi nofio dwys am x3 wythnos / Intense swimming lessons for x3 weeks |
| Wythnos dechrau / Week beginning: 03/02/20 | Derbyn i Fl 6/ Reception to Yr 6 | Nosweithiau rhieni / Parents evenings |
| 17-21/02/20 | Ysgol gyfan / *Whole School* | **HANNER TYMOR / HALF TERM** |
| 24/02/20 | Ysgol gyfan / *Whole School* | Diwrnod **HMS / INSET** day<br>Ysgol ar gau i ddisgyblion / *School closed to pupils* |